# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd*

PROSPECTIVE

### 72 Terfynu cymeradwyaeth yn wirfoddol

(1) Pan fo person y mae awdurdod lleol wedi cymeradwyo mangre neu gerbyd ar ei gais o dan adran 70, mewn cysylltiad â thriniaeth arbennig, yn dymuno i'r gymeradwyaeth beidio â chael effaith, caiff y person roi hysbysiad i'r perwyl hwnnw i'r awdurdod.

(2) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan y dyddiad, pan ddaw i ben, y mae'r gymeradwyaeth i beidio â chael effaith.

(3) Yn ddarostyngedig i unrhyw gymeradwyaeth sy'n dod i ben yn gynharach o dan adran 70(6) neu 73, mae'r gymeradwyaeth yn peidio â chael effaith pan ddaw'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad i ben.

(4) Rhaid i awdurdod y rhoddir hysbysiad iddo o dan yr adran hon gymryd camau rhesymol i ddwyn yr hysbysiad i sylw unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn meddwl ei fod yn debygol o effeithio arnynt.

(5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch hysbysiad o dan yr adran hon, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) ynghylch gwybodaeth sydd i gael ei chynnwys yn yr hysbysiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 72 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 72 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2